# SGILIAU A MENTORA - Medi – Tachwedd 2016

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## Ceisiadau am Gymorth Ariannol: 4ydd Cyfnod (3ydd-28ain Hydref 2016)

Cyflwynwyd 686 o geisiadau am gymorth ariannol yn ystod y cyfnod. O'r rhain, mae 36 wedi cael eu terfynu, 31 wedi cael eu gadael ac mae **619** o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo a byddant yn cael eu cefnogi trwy'r rhaglen.


Mae'r dadansoddiad fesul categori hyfforddiant fel a ganlyn:

| Categori | Nifer y ceisiadau wedi'u cymeradwyo |
|---|---|
| **Categori 1** Gwella'r Busnes | 152 |
| **Categori 2** Technegol | 232 |
| **Categori 3** Defnyddio peiriannau ac offer | 235 |
| **CYFANSWM** | **619** |


Mae nifer y cyrsiau Gwella Busnes a gefnogwyd yn ystod Cyfnod 4 wedi cynyddu i 152 o'i gymharu â Chyfnod 1 pan mai dim ond 33 cais a gefnogwyd.

## Ystadegau Ceisiadau


Mae'r dadansoddiad a roddir yn y siart isod yn dangos amrediad oedran cwsmeriaid o fewn y diwydiannau amaeth a choedwigaeth y mae eu ceisiadau'n cael eu cefnogi yn ystod Cyfnod 4.




Mae'r graff isod yn dangos nifer y ceisiadau a gymeradwywyd mewn perthynas â Siroedd Cymru.




Mae'r siart isod yn dangos nifer y Ceisiadau a Gymeradwywyd mewn perthynas â chymhwysedd yr Ymgeisydd. Mae mwyafrif yr ymgeiswyr yn dod o Fusnesau Fferm.




## Cynlluniau Datblygu Personol

Ers dechrau Cyfnod Ymgeisio 1 hyd at ddiwedd Cyfnod 4, mae cyfanswm o **2288** o Gynlluniau Datblygu Personol wedi cael eu cwblhau, gyda mwyafrif y Cynlluniau'n cael eu cwblhau er mwyn cefnogi cais am gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant.

## E-ddysgu


O'r 14 modiwl sydd bellach ar gael, cwblhawyd **1712** rhwng dechrau Cyfnod Ymgeisio 1 a diwedd Cyfnod 4.

O'r cyfanswm hwn:

| Enw'r Cwrs | Cyfanswm |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch (modiwl gorfodol i bob unigolyn sy'n cyflwyno cais ar gyfer Categori 3) | 1642 |
| Modiwlau E-ddysgu eraill | 70 |
| **CYFANSWM** | **1712** |

## Agrisgôp

Roedd **35** o grwpiau'n weithredol yn ystod y chwarter gyda **274** o aelodau'n mynychu cyfanswm o **51** cyfarfod Agrisgôp.




## Llwyddiant

Mae cydweithrediad a gweledigaeth wedi cynorthwyo i sicrhau dyfodol hyfyw ar gyfer pedair fferm deuluol Gymreig, sydd wedi buddsoddi cyfanswm o £3 miliwn yn arallgyfeirio i gynhyrchu wyau maes.

- ➔ 1 arweinydd Agrisgôp
- ➔ 4 fferm deuluol Gymreig
- ➔ 7 cyfarfod
- ➔ Buddsoddiad o £3 miliwn
- ➔ 96,000 o ieir

Darllenwch fwy am sut mae Agrisgôp wedi cynorthwyo'r grŵp ar wefan Cyswllt Ffermio - https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/posts/cynhyrchwyr-wyau-agrisgop

## Cyfnewidfa Rheolaeth

### CEIRIOG JONES


Teithiodd Ceiriog o Gorwen i'r Iwerddon: *17eg – 21ain Hydref*

**Canolbwyntio ar:** Sicrhau Ansawdd

### MICHAEL HOULDEN


Teithiodd o Sanclêr i Ffrainc: *26ain Tachwedd – 3ydd Rhagfyr*


**Canolbwyntio ar:** Gynhyrchiant organig, cwmnïau cydweithredol, tanwyddau bio-goed a chynnyrch coetir, technegau rheoli coetir a marchnata



Gwledydd lle bydd cyfnewidfeydd yn cymryd lle – Iwerddon, Sweden, Denmarc, Ffrainc, Yr Alban, Lloegr, Yr Almaen, Latfia, Ffindir, Gwlad Pwyl.

## Rhaglen Fentora – 39 mentor




Mae **25 mentai** wedi cael eu mentora yn ystod y chwarter.



## Nodau ac amcanion yr Academi Amaeth

Mae'r Academi Amaeth wedi'i rannu'n dair rhaglen fel a ganlyn:

**Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig** - wedi'i anelu at ysbrydoli a datblygu cenhedlaeth newydd o arweinwyr yng Nghymru wledig. (Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig yn cael ei redeg mewn cydweithrediad â Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru).

**Rhaglen Busnes ac Arloesedd** - wedi'i anelu at gefnogi ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr ac entrepreneuriaid ffermio a choedwigaeth yng Nghymru.

**Rhaglen yr Ifanc** - wedi'i anelu at gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 19 mlwydd oed sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth. Bydd y rhaglen yn ynnig cyfle unigryw i gysgodi unigolion uchel eu proffil yn eu maes diddordeb penodol. (Mae Rhaglen yr Ifanc yn gydweithrediad gyda CFFI Cymru).

## Academi Amaeth

Dydd Gwener 9fed Medi – Dydd Sul 11eg Medi

YR ACADEMI ARWEINYDDIAETH WLEDIG YN CWRDD YN LLANBEDR PONT STEFFAN

✓ Arddulliau dysgu ✓ Sgiliau gwrando ✓ Arweinyddiaeth ✓ Datblygu gyrfa ✓ Ymwrthedd i newid ✓ Dirprwyo ✓ Grymuso ✓ Cyd-drafod

Dydd Gwener 16eg Medi – Dydd Sul 18fed Medi

YR ACADEMI BUSNES AC ARLOESEDD YN CWRDD YM MANGOR

✓ Arloesedd mewn busnes ✓ Technoleg ✓ Grym cyfryngau cymdeithasol
✓ Archfarchnadoedd y tu ôl i'r llen ✓ Strwythurau busnes ✓ Codi arian torfol

Dydd Gwener 7fed Hydref – Dydd Sul 9fed Hydref

ACADEMI'R IFANC YN CWRDD YN NIHEWYD

✓ Datblygu cynnyrch ✓ Sgiliau cyflwyno ✓ Arallgyfeirio ✓ Gweithdy Brexit
✓ Cynllunio olyniaeth ✓ Opsiynau gyrfa

Dydd Sul 16eg Hydref - Dydd Mawrth 19eg Hydref

YMWELIAD YR ACADEMI BUSNES AC ARLOESEDD Â COPENHAGEN, DENMARC

✓ Arloesedd bwyd-amaeth ✓ Marchnadoedd bwyd ✓ Fferm fêl ✓ Bragdy micro
✓ Ffermio trefol ✓ Diwydiant pecynnu cig

Dydd Sul 6ed Tachwedd - Dydd Mercher 9fed Tachwedd

YMWELIAD YR ACADEMI ARWEINYDDIAETH WLEDIG Â BRWSEL A LLUNDAIN

✓ Swyddfa UE Llywodraeth Cymru ✓ Cefnogaeth Uniongyrchol, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaeth ✓ Cyllid ar gyfer Ymchwil Amaethyddol ✓ Cwrdd â Derek Vaughan, Aelod Seneddol Ewropeaidd Llafur ✓ Cig Eidion a Chig Oen Seland Newydd ✓ Biwro Amaethyddol Prydain ✓ NFU - Rheolau cyffredinol ar gyfer lobïo

Dydd Gwener 25ain Tachwedd - Dydd Llun 28ain Tachwedd

PENWYTHNOS OLAF ACADEMI BUSNES AC ARLOESEDD YN ABERHONDDU

✓ Ymweliadau Fferm â Ffermydd Arddangos CFf ✓ Cyflwyno eu cynlluniau busnes
✓ Cwrdd â mentoriaid ✓ Rhwydweithio gyda chyn aelodau ✓ Ymweliad â'r Ffair Aeaf
✓ Cwrdd ag AHDB Llaeth, HCC a HSBC

## TEITHIAU ASTUDIO YN YSTOD Y CHWARTER

GRŴP HYFFORDDIANT RHIWHIRAETH

Sir Drefaldwyn i Wlad yr Haf

GRŴP MERLIN

Sir Gaerfyrddin i Belfast

ALTA CYMRU


Sir Benfro i Gaerfaddon

FFORWM AMAETH SIR GAR

Sir Gaerfyrddin i Blackpool

TIR GLAS YNYS MÔN

Ynys Môn i Newark



**www.llyw.cymru/cyswlltffermio** - 08456 000 813

Facebook.com/FarmingConnect @FarmingConnect

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government